

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

YMATEB ARGYFWNG COVID 19
PROFI LLIF UNFFORDD

Lluniwyd yr hysbysiad hwn yn unol â Rheoliadau GDPR a'r
ddeddfwriaeth berthnasol.

Tîm Llywodraethu Gwybodaeth

Lisa Richards
Swyddog Diogelu Data
Sam Bishop/Maria Litchfield
Swyddog Datgelu Data a Chofnodion

Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN
data.protection@merthyr.gov.uk, 01685 725000

Dyddiad Crëwyd: 20 Tachwedd 2020
Rheolwr â Chyfrifoldeb: Ellis Cooper

GWYBODAETH BWYSIG

Mae'r hysbysiad hwn yn darparu gwybodaeth am sut y byddwn ni, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, yn cyflenwi Rhaglen Profi Torfol. Byddwn yn hwyluso eich cyfranogiad ym mhrofi torfol COVID-19 sydd ar gael i bawb sy'n byw neu'n gweithio yn y fwrdeistref. Gelwir y prawf yn Brawf Llif Unffordd (y Prawf); prawf swab yr ydych yn ei gweinyddu eich hunan ydyw, ac sy'n gallu darparu canlyniad ymhen 20-20 munud. Gallwch ganfod rhagor am brofi torfol ym Merthyr Tudful yma:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful sy'n prosesu'r data ar gyfer y rhaglen hon sy'n golygu ein bod ni'n dilyn cyfarwyddiadau'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (AIGC). Y mae'n bwysig eich bod chi'n darllen yr hysbysiad hwn a Hysbysiad Preifatrwydd AIGC i ddeall sut gaiff eich data personol ei ddefnyddio fel rhan o'r rhaglen hon.

Y DATA PERSONOL A GESGLIR A SUT Y MAE'N CAEL EI DDEFNYDDIO

Cyn derbyn eich Prawf, bydd yn ofynnol i chi gofrestru ar y system archebu ar-lein. Caiff y system ei gweinyddu gan GIG Digidol a'i gweithredu gan AIGC a GIG Digidol. Os na allwch gael mynediad at y system archebu ar-lein, bydd angen i chi gofrestru gydag aelod o'r staff a fydd yn gallu cwblhau'r cofrestru ar eich rhan.

Bydd yn ofynnol i chi ddarparu'r data personol canlynol:

Enw llawn
Cyfeiriad
Dyddiad geni
Cyfeiriad e-bost
Rhif ffôn symudol
Rhif ffôn cartref
Eich rhif GIG (os yw gennych)

Byddwch hefyd yn derbyn cod bar unigryw'r cit profi (a fydd ar eich cerdyn cofrestru) y bydd yn rhaid i chi ei fewnbynnu i mewn i'r system.

Caiff y data hwn ei gadw yn ddiogel ar systemau cyfrifiadurol GIG Digidol. Nid oes gan y Cyngor fynediad at y system hon. Ar ôl i chi gwblhau eich Prawf caiff ei ddadansoddi gan aelod o'r tîm profi torfol. Cyflawnir hyn yn yr orsaf profi. Caiff canlyniadau eich prawf eu casglu gan aelod o'r tîm profi torfol a'u gosod yn uniongyrchol ar borth GIG Digidol a'u hanfon atoch chi drwy neges destun ac e-bost. Ni fyddwn yn cofnodi canlyniad eich prawf ar systemau'r Cyngor nac yn casglu'r samplau at ddibenion proffilio DNA. Byddwn yn casglu data fydd wedi ei wneud yn ddiennw sy'n berthnasol i'r nifer o ymwelwyr â'r canolfannau profi, yn cynnwys y nifer o brofion cadarnhaol a negyddol at ddibenion adrodd yn ôl.

SAIL GYFREITHIOL DROS BROSESU

Dim ond pan fydd deddfwriaeth diogelu data yn caniatáu i ni wneud hynny y byddwn ni'n defnyddio eich data personol. AIGC a GIG Digidol yw'r rheolwyr data ar gyfer y data personol yr ydych yn ei ddarparu yn ystod y broses profi torfol.

Mae darparu Prawf Llif Unffordd COVID-19 i bobl sy'n byw a gweithio yn y Fwrdeistref yn gymorth i Lywodraeth DU reoli lledaeniad coronafeirws yng Nghymru. Yn hynny o beth caiff y rhaglen profi torfol ei dosbarthu fel tasg ffurfiol er bydd y cyhoedd. Caiff y prosesu a gysylltir â phrofi torfol ei ystyried yn angenrheidiol er mwyn perfformio'r dasg, wrth gymryd y prawf, rydych yn rhoi caniatâd meddygol i ni gyflawni'r weithred. Bydd AIGC yn rhannu canlyniadau'r prawf gyda GIG Cymru yn unol â'r dasg hon.

RHANNU EICH DATA PERSONOL

Byddwn yn rhannu eich data personol gyda'n partneriaid sy'n ein helpu ni gyda phrofi torfol ym Merthyr Tudful, gan gynnwys AIGS, GIG a Lluoedd Arfog Prydain. Bydd Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful ac Asiantaeth Recriwtio Randstad hefyd yn cynorthwyo'r Cyngor drwy ddarparu staff i weithio yn y canolfannau profi. Ni fyddwn yn trosglwyddo eich data i unrhyw wledydd y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop.

PA MOR HIR YR YDYM YN CADW EICH DATA PERSONOL MEWN PERTHYNAS Â'R PRAWF

Rydym yn taflu pob swab prawf i ffwrdd ar unwaith ar ôl dadansoddi. Maen nhw'n cael eu llosgi 72 awr ar ôl cyflawni'r prawf yn y Llosgydd Gwastraff Clinigol. Bydd GIG Digidol yn cofnodi canlyniadau eich prawf ar+ eich cofnodion meddygol. Rhoddir yr holl fanylion wrth gofrestru i'r AIGC. Nid ydym yn cadw'r wybodaeth hon.

MANYLION PELLACH

Mae hawliau gennych mewn perthynas â defnyddio eich data personol. Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach yma www.ico.org.uk/your-data-matters/. Os oes gennych unrhyw bryderon am y modd y caiff eich data personol ei ddefnyddio, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data ar gyfer AIGC, Lee Cramp, drwy anfon e-bost i data_protection@AIGC.gov.uk. Am ragor o wybodaeth am sut mae eich data yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Profi, Orlhain, Diogelu yng Nghymru ewch i'r wefan benodol www.wales.nhs.uk/traceprivacyanddataprotectioninformation.

Gallwch hefyd ddod o hyd i wybodaeth bellach am sut mae sefydliadau eraill yn defnyddio eich data personol mewn ymateb i Brofi Torfol COVID-19 fan hyn: www.gov.uk/government/publications/coronavirus-covid-19-testing-privacy-information/testing-for-coronavirus-privacy-information--2 www.phw.nhs.wales/use-of-site/privacy-notice/